




**Sut allwn ni droi tywod yn
bridd iach?**




Y broblem

Mae gan lawer o ardaloedd arfordirol yn y DU briddoedd tywodlyd iawn. Maent yn draenio'n gyflym pan fydd hi'n bwrw glaw ac nid ydyn nhw'n dal maetholion yn dda. Os na fydd hi'n bwrw glaw am ychydig ddyddiau, mae priddoedd tywodlyd yn dod yn sych yn gyflym ac yna nid yw cnydau'n tyfu'n dda.




Ffermio cynaliadwy mewn ardaloedd tywodlyd



Wrth i'r boblogaeth fyd-eang gynyddu, mae'n dod yn fwy a mwy pwysig gwneud y defnydd gorau o dir ar gyfer tyfu cnydau. Mae yna lawer o ardaloedd arfordirol yn y DU lle mae priddoedd tywodlyd.

O amgylch y byd mae yna lawer o ardaloedd anial a lletgras sy'n dywodlyd iawn.

Sut y gellir gwella'r ardaloedd hyn i dyfu cnydau?



Diogelwch bwyd

Diogelwch bwyd yw pan fydd gan bawb ddigon o fwyd diogel a maethlon i fyw bywyd iach, mewn ffyrdd y gall y blaned gynnal yn y dyfodol.


Er mwyn gwella diogelwch bwyd, mae angen i ni wneud y defnydd gorau o'n tir i dyfu'r cnydau sydd eu hangen arnom.



Eich her!

Rydych chi'n ymchwilydd amaethyddol sy'n ymchwilio i sut i wella ansawdd priddoedd tywodlyd. Rydych chi'n gwybod y gellir gwella priddoedd tywodlyd trwy ychwanegu a chymysgu sylweddau sy'n helpu i gadw lleithder a maetholion.

Byddwch yn ymchwilio i ba mor effeithiol yw gwahanol fathau o sylweddau ar gyfer tyfu planhigion pys.




Pridd iach a newid hinsawdd



Mae compost yn gymysgedd o ddeunydd organig sy'n pydru fel dail marw, a gwastraff fferm neu ardd.


Pan fydd yn dadfeilio mewn pridd, mae'n rhyddhau maetholion i'r pridd yn araf.



Sylwedd B: Clai

Gwneir clai o rawn mân o fwynau.

Mae'r mwyafrif o glai yn amsugno dŵr yn dda ond nid ydyn
nhw'n gadael i ddŵr socian trwyddo'n gyflym.




Sylwedd C: Llwch Ilif



Mae llwch Ilif yn bowdwr organig a wneir pan fydd pren yn cael ei lifio neu ei blaenio.

Mae grawn llwch Ilif yn amsugno dŵr a'i ryddhau yn ôl i'r pridd yn araf.

Wrth i llwch Ilif ddirywio yn y pridd, mae'n rhyddhau maetholion.



Sylwedd D: Fermiciwleith

Mae Fermiciwleith yn
fwyn hydraid y gellir ei
ddefnyddio ar ei ben ei
hun neu ei gymysgu â
phridd.

Mae'n helpu'r pridd i
gadw aer a lleithder.




Sylwedd E: Mwydion papur



Gwneir papur o seliwlos planhigion, fel arfer o goed.

Gwneir mwydion papur trwy gymysgu papur wedi'i falu â dŵr i wneud slyri.

Pan gaiff ei gymysgu â phridd, mae'n helpu i gadw lleithder ac yn rhyddhau maetholion wrth iddo bydru.



Costau nodweddiadol ar gyfer ychwanegion pridd

Sylwedd	Cost y dunnell
A: Compost	£40
B: Clai	£10
C: Llwch llif	£70
D: Fermiciwleit	£110
E: Mwydion papur	£20



Yr ymchwiliad

Cynlluniwch eich ymchwiliad i ddod o hyd i'r ffordd orau o wella tywod ar gyfer tyfu planhigion pys.


Cofiwch gynllunio ymchwiliad dan reolaeth (prawf teg).



Beth wnaethoch chi ei ddarganfod?

Pa fath o ddeunydd yw'r gorau ar gyfer helpu planhigion pys i dyfu?


Defnyddiwch y wybodaeth gost i benderfynu pa fath o ddeunydd organig yw'r gwerth gorau am arian.



Adolygiad

Defnyddiwch eich canfyddiadau i ysgrifennu adroddiad gyda thystiolaeth i gynghori ffermwyr yn y DU â phridd tywodlyd sut y gallant wella eu tir orau ar gyfer tyfu cnydau.

Prosiect estynnol: Defnyddiwch eich canfyddiadau i wneud poster ymchwil gwyddoniaeth i gynghori pobl mewn gwledydd ag anialwch tywodlyd sut y gallant wella eu tir ar gyfer tyfu cnydau.




Nodweddion poster gwyddonol


Teitl eich ymchwiliad Eich enwau

Cyflwyniad

Yn ymchwilio i...




Dull





Canfyddiadau

Enw	Medd	Medd	Medd
Medd 1	15	0	34
Medd 2	10.8	11.7	12.4
Medd 3	1.11	10.1	1.81
Medd 4	12.4	15.4	18.4
Medd 5	17.1	18.4	20.1
Medd 6	12	14	16
Medd 7	1	1	1.5
Medd 8	16.5	17.8	18.1
Medd 9	11	1	18.1
Medd 10	1	1	1.1




Casgliad

Cydnabyddiaethau

Blumosee - Sunflower seedlings CC BY-SA 3.0
KVDP - seed tray



Cystadleuaeth



Meddyliwch sut y gallech chi ddefnyddio'ch dysgu am sut y gallwn droi tywod yn bridd iach i'ch helpu chi i ddylunio syniad, dyfais neu arloesedd a fydd yn helpu ffermwyr i barhau i ofalu am yr amgylchedd a bod yn archarwyr hinsawdd.

www.farmvention.com

